



Cyngerdd Nadolig y BBC

Fel y gwyddoch, bu rhaid cau Neuadd Dewi Sant yn ddiweddar oherwydd pryderon am ddiogelwch yr adeilad.

Cawsom gadarnhad yr wythnos hon y bydd y gyngerdd yn parhau i ddigwydd ar Ragfyr 10fed, ond yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan y Mileniwm.

Gan fod y neuadd yn llai o faint na Neuadd Dewi Sant, bydd dwy gyngerdd ar y 10^{fed}, gyda hanner yr ysgolion yn perfformio yn y gyngerdd gyntaf a'r hanner arall yn yr ail gyngerdd.

Bydd ein hysgol ni yn perfformio yn yr ail gyngerdd. Dyma drefniadau'r dydd i chi.

- 9:45 Pawb i gwrdd ym mhrif fynedfa Canolfan y Mileniwm.
Bydd staff yr ysgol yn mynd â'r plant i mewn i'r Ganolfan i ymarfer ar gyfer y gyngerdd.
- 12:30 Casglwch eich plentyn o brif fynedfa Canolfan y Mileniwm.
Ni fydd staff yr ysgol yn gyfrifol am blant rhwng 12:30 a 15:45.
- 15:45 Pawb i gwrdd ym mhrif fynedfa Canolfan y Mileniwm.
Bydd staff yr ysgol yn mynd â'r plant i mewn i'r Ganolfan ar gyfer y gyngerdd.
- 16:30 Cyngerdd yn dechrau.
- 18:00 Cyngerdd yn gorffen.

Bydd angen gwisg ysgol ffurfiol ar bawb a gall y plant ddod â diod gyda nhw i'w gadw yn yr ystafell werdd. Cofiwch anfon unrhyw foddion angenrheidiol megis pwmp asthma neu epipen.

Dyma i chi'r ddolen er mwyn prynu tocynnau:

<https://tickets.stdavidshallcardiff.co.uk/WEBPAGES/EntaWebShow/ShowPerformance.aspx>

Cliciwch ar BBC NOW Carols for Christmas a dewiswch berfformiad 16:30 ar y calendr.

Cewch brynu dau docyn y plentyn yn unig.

Diolch yn fawr i chi am bob cefnogaeth,

Mrs Morrish a Miss Williams



BBC Christmas Concert

As you know, St David's Hall had to be closed recently due to safety concerns regarding the building.

We received confirmation this week that the concert will still take place on December 10th, but in the Hoddinott Hall at the Millennium Centre.

As the hall is smaller than St David's Hall, there will be two concerts on the 10th, with half of the schools performing in the first concert and the other half in the second concert.

Our school will perform in the second concert. Here are the day's arrangements for you.

- **9:45** Everyone to meet at the main entrance of the Millennium Centre.
The school staff will take the children into the Centre to practise for the concert.
- **12:30** Collect your child from the main entrance of the Millennium Centre.
The school staff will not be responsible for children between 12:30 and 15:45.
- **15:45** Everyone to meet at the main entrance of the Millennium Centre.
The school staff will take the children into the Centre for the concert.
- **16:30** Concert starts.
- **18:00** Concert ends.

Everyone will need a formal school uniform and the children can bring a drink with them to keep in the green room. Remember to send any necessary medication such as an asthma pump or epipen.

Here's the link to purchase tickets:

<https://tickets.stdavidshallcardiff.co.uk/WEBPAGES/EntaWebShow/ShowPerformance.aspx>

Click on BBC NOW Carols for Christmas and choose the 16:30 performance on the calendar.

You are able to purchase two tickets per child.

Thank you very much for your continued support,

Mrs Morrish and Miss Williams